

Masnachu ar y Stryd

Cwestiynau Cyffredin

C Rydw i wedi derbyn gwahoddiad i fasnachu mewn achlysur sydd wedi'i drefnu megis marchnad stryd, oes rhaid derbyn caniatâd masnachu ar y stryd gan yr Awdurdod?

A Mae'n dibynnu a oes rhaid i'r cyhoedd dalu ffi mynediad ar gyfer yr achlysur. Os ydy'r achlysur am ddim, rhaid cael caniatâd i fasnachu bob tro. Os oes rhaid talu i gael mynediad i'r achlysur, does dim rhaid cael caniatâd i fasnachu. Os ydy'r achlysur am ddim, dylech chi wirio gyda'r trefnwyr bod caniatâd gyda nhw. Hefyd, mae modd gwirio â charfan drwyddedu'r Cyngor. Gan ddefnyddio'r enghraifft o ffair sy'n teithio i leoliadau gwahanol, os oes rhaid talu ffi i fynd i mewn i'r ffair yna does dim rhaid cael caniatâd. Os oes modd mynd i mewn i'r ffair am ddim, rhaid cael caniatâd.

C Rydw i'n masnachu mewn achlysuron megis priodasau yn unig, oes rhaid cael caniatâd?

A Os ydych chi'n cael eich cyflogi a'ch talu ymlaen llaw i gynnig eich gwasanaeth, yna does dim angen caniatâd. Os ydych chi'n gwerthu eich gwasanaeth i'r cyhoedd yna raid cael caniatâd. Er enghraifft, os ydych chi'n gwerthu bwyd i gwsmer yn uniongyrchol, yna raid cael caniatâd.

C Rydw i'n masnachu mewn achlysuron, ond nid ar y stryd. Oes rhaid cael caniatâd?

A Oes, os ydych chi'n masnachu yn Rhondda Cynon Taf mewn achlysur sydd ddim wedi'i drefnu ymlaen llaw a dydych chi ddim wedi derbyn gwahoddiad, rhaid cael caniatâd.

C Sut mae gwneud cais am ganiatâd i fasnachu ar dir preifat?

A Rhaid cynnwys llythyr gan berchennog y tir preifat a'i gynnwys gyda'r ffurflen gais gyntaf. Efallai bydd perchennog y tir yn codi ffi ar wahân er mwyn llogi'r maes.

C Os ydw i'n talu ffi i'r landlord ar gyfer defnyddio'i dir, pam oes rhaid talu eto?

A Rydych chi'n cael eich adnabod fel masnachwr stryd, felly mae'r telerau yn berthnasol i'r rhai sy'n talu am dir a'r rhai sydd ddim. Mae unrhyw ffi rhyngoch chi a pherchennog y tir ar wahân, dyna gytundeb rhwng y ddau ohonoch chi.

C Rydw i eisiau masnachu mewn cilfan ar ochr yr heol, oes llefydd

penodol sydd wedi'u cymeradwyo yn Rhondda Cynon Taf?

A Dydy Rhondda Cynon Taf ddim yn cadw rhestr o leoliadau masnachu, mae pob cais yn cael ei ystyried ar wahân. Serch hynny, oherwydd rhesymau diogelwch, mae cilfan sydd wedi gwahanu o'r heol yn fwy ffafriol oherwydd fydd y cwsmeriaid ddim yn sefyll ar ochr y ffordd. Darllenwch y polisi ar gyfer cyfyngiadau masnachu ar rai strydoedd.

C Oes rhaid cael caniatâd os ydw i'n masnachu mewn marchnadoedd crefft a bwyd?

A Unrhyw farchnad y mae'r Cyngor yn ei chydabod / ei threfnu. Mae marchnadoedd ffermwyr, crefft, a thymhorol wedi'u heithrio. Rhaid cael caniatâd ar gyfer unrhyw achlysur heblaw y rhain.

C Oes rhaid cael caniatâd os ydw i wedi cael fy ngwahodd i achlysuron chwaraeon?

A Oes.

C Mae rhan fwyaf fy ngwaith tu allan i Riondda Cynon Taf, ond weithiau rydw i'n gweithio yn Rhondda Cynon Taf. Oes rhaid cael caniatâd?

A Rhaid cael caniatâd ar gyfer unrhyw waith rydych chi'n ei wneud yn Rhondda Cynon Taf.

C Rydw i eisiau gwneud cais i werthu bwyd poeth hwyr y nos o'n fan byrgyr, oes rhaid cael caniatâd pellach i wneud hynny?

A Oes, os ydych chi'n bwriadu gwerthu bwydydd neu ddiodydd poeth rhwng 11pm a 5am, rhaid cael trwydded safle o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ynghyd â chaniatâd Masnachu ar y Stryd. Rhaid talu ffioedd ar wahân ar gyfer y ddau gais.

C Oes rhaid cael caniatâd i fasnachu o fy ngardd breifat (dydy'r cyhoedd ddim fel arfer yn cael mynediad i'r ardd)?

Os yw'r masnachu yn cael digwydd o'ch gardd yn unig, yna does dim angen caniatâd. Serch hynny, os ydych chi'n masnachu dros ffin, er enghraifft dros ffens, ac mae pobl yn aros neu'n cael eu gweini ar dir lle mae'r cyhoedd fel arfer yn cael mynediad, yna rhaid cael caniatâd.

C Oes rhaid cael caniatâd i fasnachu o faes parcio preifat neu dir preifat lle mae'r cyhoedd fel arfer yn cael mynediad ato?

Oes, rhaid cael caniatâd.

C Rydw i'n unig fasnachwr ac eisiau masnachu mewn nifer o lleoliadau

gwahanol. Oes rhaid i mi gael caniatâd ar wahân ar gyfer pob lleoliad?

Os oes gyda chi gerbyd/standin sy'n teithio ac rydych chi'n masnachu mewn lleoliadau gwahanol yn ystod yr wythnos, h.y. lleoliad A drwy'r dydd ar ddydd Llun, drwy'r dydd yn lleoliad B ar ddydd Mawrth ac ati, yna mae modd masnachu o dan yr un caniatâd. Rhaid rhoi manylion o bob lleoliad a'r diwrnodau/amseroedd byddech chi'n masnachu ym mhob lleoliad gwahanol.

Os oes gyda chi fwy nag un cerbyd/standin, rhaid cael caniatâd masnachu ar y stryd ar gyfer pob cerbyd/standin.

Bydd pob lleoliad yn cael ei ystyried i weld a yw'n addas. Bydd pob lleoliad sy'n cael ei gymeradwyo yn cael ei nodi ar eich caniatâd.

C Rydw i'n fasnachwr symudol (er enghraifft fan hufen iâ). Oes rhaid cael caniatâd masnachu ar y stryd?

Oes, rhaid cael caniatâd ar gyfer pob cerbyd/standin.

C Rydw i'n rhedeg fan hufen iâ neu'n gwerthu cig ac ati sy'n masnachu mewn lleoliadau gwahanol. Rydw i'n masnachu am gyfnod dros awr ym mhob lleoliad, pa drwydded sydd ei hangen?

A Rhaid cael caniatâd, sy'n nodi pob lleoliad a'r dyddiad ac amser rydych chi am fod yna. Os ydych chi'n masnachu am lai nag awr, rhaid cael caniatâd masnachwr symudol.

C Os bydd fy nghais yn cael ei wrthod neu ei ddiddymu, beth sy'n digwydd nesaf?

A Cyfeiriwch at y polisi lleol sy'n nodi:

15. Ceisiadau sydd wedi'u gwrthod neu'u diddymu

Lle bo'r adran drwyddedu yn gwrthod cais neu'n diddymu caniatâd bydd yr ymgeisydd/deiliad y caniatâd yn cael gwybod yn ysgrifenedig beth yw'r rhesymau; mae hyn yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd/deiliad y caniatâd gyflwyno sylwadau o fewn 7 niwrnod o dderbyn yr hysbysiad.

Er does dim hawl apelio, bydd sylwadau'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu.

C Oes modd masnachu ym maes parcio'r Cyngor?

- A Oes, ond rhaid cael caniatâd gan y Cyngor. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn rhan o'ch cais.
- C Oes rhaid cael caniatâd i fasnachu ar ystad ddiwydiannol?**
- A Oes oherwydd bod gan y cyhoedd fynediad i'r ystad ddiwydiannol.
- C Rydw i'n gweini bwyd a diodydd poeth ym maes parcio tafarn. Dydw i ddim yn codi ffi, ond mae'r dafarn yn codi ffi.**
- A Bydd angen caniatâd i fasnachu ar y stryd gan eich bod yn cynnig nwyddau sydd ar werth i'r cyhoedd.
- C Oes modd gwerthu nwyddau fel bwyd a dillad mewn parciau?**
- A Rhaid cael caniatâd masnachu ar y stryd, ond rhaid hefyd cael caniatâd gan berchennog y tir, sef parciau Cyngor Rhondda Cynon Taf yn yr achos yma.
- C Oes modd masnachu mewn marchand sydd wedi'i chynllunio ymlaen llaw?**
- A Bydd angen i drefnydd yr achlysur wneud cais am ganiatâd masnachu ar y stryd, a fydd yn cynnwys manylion yr holl amrywiol stondinau a masnachwyr fydd yn rhan o'r achlysur, a'r holl ddogfennau ategol gofynnol.
- C Oes rhaid cael caniatâd cynllunio ynghyd â chaniatâd masnachu ar y stryd?**
- A Efallai bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer lleoliadau penodol, sydd ar wahân i ganiatâd masnachu stryd. Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n gwirio gyda'r garfan gynllunio ar gyfer y lleoliad o'ch dewis.
- C Oes rhaid cael caniatâd i fasnachu mewn achlysur y mae'r Cyngor wedi'i drefnu/ei gymeradwyo?**
- A Os ydych chi'n rhan o'r achlysur yna nac oes, does dim rhaid. Ond, os dydych chi ddim yn rhan o'r achlysur yn swyddogol, yna raid cael caniatâd.
- C Oes rhaid i mi dalu os ydw i'n gweithio un diwrnod yn unig?**
- A Oes, rhaid cael caniatâd os ydych chi'n masnachu. Dydy nifer y diwrnodau ddim yn cael effaith ar yr angen am ganiatâd.
- C Oes modd cael caniatâd am 3 mis yn y lle cyntaf, yna adnewyddu'r caniatâd am 3, 6, neu 12 mis ar ôl hynny?**
- A Oes, unwaith ichi dderbyn caniatâd, mae modd adnewyddu am gyfnod o'ch dewis. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail unigol.
- C Oes rhaid talu'r cyfanswm llawn?**

A Oes, fydd eich cais ddim yn cael ei ystyried heb eich bod chi'n talu.

C Oes rhaid i fasnachwyr sydd eisoes â sgôr hylendid bwyd tu allan i Riondda Cynon Taf wneud cais?

A Oes, mae'r telerau yn berthnasol i bawb sy'n masnachu yn Rhondda Cynon Taf.

C Ar ôl cael caniatâd, gyda phwy ydw i'n cysylltu ag ef os oes problem gyda masnachwyr eraill?

Ffoniwch 01443 245001 neu e-bostiwch Adran.Trwyddedau@rctcbc.gov.uk os bydd anhrefn cyhoeddus. Ffoniwch yr heddlu os oes ymddygiad ymosodol.

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn y polisi:

<https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Business/LicencesandPermits/Streettradinglicences/RelatedDocuments/Streettradingpolicy2024.pdf>